MYFI YW ... DUW?

Trawodd gweinidogaeth Iesu o Nasareth Israel fel corwynt. Amlygodd ragrith crefyddol ei ddydd, a thrawsnewidiodd ei ddysgeidiaeth a'i wyrthiau fywydau er gwell. Mae'n dal i gael yr un effaith drwy'r byd i gyd heddiw.

Y mae hyn yn codi'r cwestiwn, 'Pa fath o ddyn yw hwn...?'

O dro i dro, daw beirniaid sy'n honni mai dim ond dyn oedd Iesu, dyn rhyfeddol iawn, ond dyn er hynny. Ond mae dysgeidiaeth y Beibl yn glir ac yn ddigamsyniol: Mae Iesu yn ddyn ... ac yn Dduw.

Dyma rai o'r ffyrdd y mae Iesu ei hun yn datgelu ei fod yn Dduw:

A. TRWY EI WEITHREDOEDD

Maddau pechodau

Mae Marc 2:1-12 yn adrodd yr hanes am Iesu'n pregethu mewn tŷ dan ei sang yng Nghapernaum. Agorwyd y to uwch ei ben, a gostyngodd pedwar dyn ffrind wedi ei barlysu o'i flaen. Dywedodd Iesu wrth y dyn wedi ei barlysu, 'Fab, maddeuwyd dy bechodau'. Roedd yr arweinwyr crefyddol oedd yn bresennol yn meddwl ei fod yn gabledd i ddweud y fath beth. Wedi'r cwbl, yn yr Hen Destament, dywedodd Duw ei hun, 'Myfi, myfi yw Duw, sy'n dileu dy droseddau' (Eseia 43:25).

Ond atebodd Iesu'r dyrfa, 'er mwyn i chwi wybod fod gan Fab y Dyn awdurdod i faddau pechodau ar y ddaear'– meddai wrth y claf, 'cod, a chymer dy fatras a dos adref.' Cafodd y dyn ei wella yn syth, ac roedd y dyrfa'n rhyfeddu. Roedd y wyrth yn profi ei honiad: mae ganddo'r awdurdod i faddau pechodau, ac felly Duw yw e.

Barnu holl bobl y byd

Ym Mathew 25, mae'r Iesu'n siarad am ddydd y farn. Bryd hynny, pan fydd pawb sydd wedi byw erioed yn cael eu galw gerbron gorsedd barn, ni fydd Iesu'n cael ei farnu fel dynion eraill: ef fydd y barnwr. Mae Iesu'n rhoi'r rheswm am hyn: 'Nid yw'r Tad chwaith yn barnu neb, ond y mae wedi rhoi pob hawl i farnu i'r Mab, er mwyn i bawb roi i'r Mab yr un parch ag a rônt i'r Tad' (Ioan 5:22-23).

B. TRWY EI EIRIAU

Mab Duw

Cyfeiria'r Iesu droeon ato'i hun fel 'Mab Duw'[1] ac at Dduw fel 'fy Nhad'.[2] Mae'n dweud ei fod yn gwneud gwaith y Tad (Ioan 5:36) a'i fod wedi byw gyda'r Tad yn y gogoniant cyn bod y byd (Ioan 17:5). Deallai'r Iddewon yn iawn beth oedd hyn yn ei olygu: 'Parodd hyn i'r Iddewon geisio'n fwy byth ei ladd ef, oherwydd ... yr oedd hefyd yn galw Duw yn dad iddo ef ei hun, ac yn ei wneud ei hun felly yn gydradd â Duw.' (Ioan 5:18).

Pam mae hyn yn bwysig?

Rhyfeddod hyn i gyd yw bod Duw wedi dod yn ddyn er mwyn ein hiachawdwriaeth ni! Roedd cymryd ein pechodau yn dasg rhy fawr i unrhyw ddyn neu angel. Dim ond Duw yn y cnawd a allai ymgymryd â'r dasg. Bellach am ei fod wedi gwneud hyn, does dim i rwystro neb rhag cael iachawdwriaeth yn Iesu Grist.

Mae'r nefoedd yn llawn o'r rheini sy'n addoli Iesu Grist.[3] Pwy arall ond Duw sydd yn haeddu addoliad o'r fath? A fyddwch chithau yn eu plith?[4]

Mark Thomas

Mae Mark Thomas yn weinidog ar Eglwys Borras Park, Wrecsam

[1]Mae'n gwneud ugain o weithiau yn Efengyl Ioan.
[2]Er enghraifft, dros ugain o weithiau yn Efengyl Ioan.
[3]Datguddiad 5:8-10, 22:8-9.
[4]Os hoffech ddarllen ymhellach am ddysgeidiaeth y Beibl am Iesu, hoffwn argymell llyfr bach gan Leon Morris, The Lord from Heaven (IVP, ISBN: 978-0851112343).